# Adroddiad Arolygu

**Ian Henderson**

**Betws-y-coed**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

01/06/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br><br>24 Ebrill 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br><br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae’r plant yn fywiog ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad.  Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac yn gyfarwydd â threfniadau arferol.  Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu gan eu bod yn derbyn croeso cynnes a gofal gan y gwarchodwr plant a'r staff.  Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.  Caiff y plant ddigonedd o gyfleoedd i ddilyn eu diddordebau ac maent yn arwain eu chwarae eu hunain yn dda.  Maent yn datblygu eu hannibyniaeth yn briodol.  Mae gan y gwarchodwr plant a'r staff ddealltwriaeth dda o'u rôl a'u cyfrifoldebau o ran cadw plant yn ddiogel ac yn iach.  Maent yn canmol y plant yn gadarnhaol am eu hymdrechion.  Mae’r gwarchodwr plant yn rhoi’r cyfle i blant ddatblygu eu chwarae a’u dysgu yn effeithiol.  Mae'r amgylchedd dan do yn lân ac yn addas ar gyfer anghenion y plant.  Mae'r ardal yn yr awyr agored wedi'i threfnu'n ddeniadol gydag amrywiaeth o adnoddau ac offer i ddatblygu sgiliau corfforol a synhwyraidd y plant.  Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn briodol, ond mae angen datblygu rhai ardaloedd ymhellach.  Mae'r lleoliad yn gweithredu trwy gyfrwng y Saesneg gyda Chymraeg syml yn cael ei siarad.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Caiff y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn y maent am chwarae ag ef.  Mae eu hoffterau, eu casbethau a'u hanghenion yn cael eu cydnabod gan fod ganddynt ymrwymiadau hoffter cryf gyda'r gwarchodwr plant a'r staff.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda.  Er enghraifft, dywedodd y plant wrthym yn gyffrous sut y gallant wneud awyren bapur, gan fynd ati i ddangos i ni, a chawsant lawer o hwyl yn gwneud iddi hedfan.  Mae rhai plant yn mwynhau siarad Cymraeg ac yn creu cyfleoedd iddynt eu hunain i ymarfer eu cyfrif ac enwi lliwiau. Dangosodd plentyn i'r gwarchodwr plant yn gynhyrfus ei fod wedi tynnu dwy geiriosen oddi ar y goeden a chafwyd trafodaeth fywiog wedyn ynghylch pryd y byddai'r ceirios yn barod i'w bwyta.

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol.  Maent yn dangos i ni sut maent yn ymolchi eu dwylo cyn amser bwyd ac yn sefyll mewn rhes cyn mynd i mewn i'r ardal fwyta.  Mae'r plant iau yn gwneud ceisiadau di-eiriau pan fyddant angen cofleidiad ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan fod eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn modd amserol.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.  Maent yn dysgu rhannu, cydweithio a chymryd eu tro.  Er enghraifft, yn ystod amser chwarae y tu allan, mae grŵp o ffrindiau yn adeiladu rhwystr diddorol gan ddefnyddio pibellau a landeri wedi'u hailgylchu.  Cymerodd y plant eu tro i rowlio peli o wahanol faint i lawr y pibellau, gan arbrofi gyda chyflymder a symudiad.   Mae'r plant wir yn mwynhau'r achlysur cymdeithasol pan fo'n amser bwyd; maent yn gwrtais ac yn eistedd yn dwt wrth y bwrdd.

Mae'r plant yn ymgysylltu'n llawn ac yn ymddiddori yn eu gweithgareddau.  Datblygodd plentyn ei ddychymyg yn dda wrth chwarae ag amrywiaeth o focsys cardbord wedi'u hailgylchu. Pan ofynnwyd iddo, dywedodd ei fod yn gwneud llong môr-ladron.  Mae'r plant yn mwynhau cwblhau detholiad o jig-sos pren a dewis eu hoff lyfr i rywun ei ddarllen iddynt. Maent yn egnïol ac yn chwilfrydig ac yn cael llawer o hwyl yn archwilio'r ardal awyr agored. Er enghraifft, fe wnaethant adeiladu tŵr gan ddefnyddio cogiau pren, gan gydweithio i wneud cwrs rhwystrau gyda phaledi pren er mwyn ymarfer eu sgiliau cydbwyso.  Roedd y plant yn rhoi sylw i'r byd naturiol o'u cwmpas. Er enghraifft, clywsom blant yn siarad am y gloÿnnod byw a'r gwahanol drychfilod y gallent eu gweld.

Mae’r plant yn meithrin eu hannibyniaeth yn briodol.  Maent yn defnyddio eu cyllyll a ffyrc yn dda amser bwyd ac yn paratoi eu hunain mewn modd addas ar gyfer mynd allan i chwarae. Darperir y bwyd a'r diodydd ar gyfer y plant, ond gallent wneud mwy o hyn eu hunain. Maent yn archwilio eu hardal chwarae yn rhydd ac yn gwneud dewisiadau am yr hyn y

maent am chwarae ag ef.  Mae'r plant yn dysgu gwneud y rhan fwyaf o bethau drostynt eu hunain ac mae'r gwarchodwr plant a'r staff yn rhoi anogaeth gadarnhaol iddynt.

## Gofal a Datblygiad Da

Mae'r gwarchodwr plant a'r staff yn ymateb yn gyson i'r plant. Maent yn gwrando ac yn parchu dewisiadau a cheisiadau'r plant.  Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol, gan arddangos cynhesrwydd a charedigrwydd.  Maent wedi ymrwymo i ddarparu gweithgareddau chwarae a dysgu da er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant a'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.  Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu ac maent yn gweithredu'r polisïau yn briodol.  Mae hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu yn gyfredol ac yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r gwarchodwr plant a'r staff yn hyrwyddo'r rhan fwyaf o arferion iach yn dda.  Maent yn darparu prydau iach ac mae llaeth a dŵr ar gael fel diodydd, ond mae sudd ffrwythau hefyd ar gael, nad yw'n cyd-fynd â'r canllawiau cyfredol ar gyfer hydradu iach.  Ar ôl ein hymweliad, dywedodd y gwarchodwr plant y byddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn.  Maent yn cynnal ymarferion tân i sicrhau bod y plant yn gwybod beth i'w wneud os oes rhaid iddynt adael y safle mewn argyfwng, ond nid oes llawer o wybodaeth wedi'i chofnodi yn y canlyniad i gynorthwyo gwelliannau wrth symud ymlaen.  Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau trwy ap, ond nid yw pob rhiant yn cydnabod eu bod wedi cael gwybod.  Nid oes system glir sy'n arddangos sut mae'r gwarchodwr plant yn adolygu damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau presennol.  Mae'r gwarchodwr plant a'r staff yn annog digon o chwarae y tu allan yn yr awyr iach i ddatblygu sgiliau corfforol y plant yn dda.

Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i ymolchi eu dwylo, ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol.  Mae'r gweithdrefnau newid cewynnau yn unol ag arweiniad rheoli heintiau cyfredol.

Mae gan y gwarchodwr plant a'r staff agwedd gynnes a chyfeillgar at roi gofal.  Maent yn canmol y plant ag iaith gadarnhaol ac yn ymhyfrydu yn eu cyflawniadau.  Dywedodd rhieni fod eu plant yn mwynhau dod i'r lleoliad a’u bod yn hapus ac wedi ymgartrefu.

Mae'r gwarchodwr plant yn olrhain cynnydd y plant yn briodol, ond nid yw'n defnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer y camau nesaf yng nghynnydd y plentyn.   Mae’n annog y plant i roi sylw i’r byd naturiol o’u cwmpas ac, o ganlyniad, clywir trafodaethau bywiog.  Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu amrywiaeth dda o weithgareddau a gwibdeithiau i godi ymwybyddiaeth y plant o'u cymuned leol trwy ymweld â'r llyfrgell leol ar gyfer sesiynau amser stori a mynd ar deithiau cerdded natur.

Mae'r gwarchodwr plant a'r staff yn codi ymwybyddiaeth y plant o rai diwylliannau ehangach a threftadaeth Cymru, ond mae'r maes dysgu hwn yng nghyfnod cynnar ei ddatblygiad. Mae'r gwarchodwr plant yn ymestyn meddwl y plant trwy ofyn llawer o gwestiynau iddynt i'w helpu i ddatrys problemau. Er enghraifft, cefnogodd blentyn i ddatrys sut i osod y teiar rhwng dau balet pren i'w atal rhag symud. Mae'r gwarchodwr plant yn sensitif i anghenion plant unigol ac yn bodloni eu gofynion yn dda. Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn cael gwybod am gynnydd eu plentyn yn ddyddiol a'u bod yn fodlon ar y ffordd y mae eu plentyn yn datblygu.

## Yr Amgylchedd **Da**

Ers ein hymweliad, gwnaed gwelliannau sylweddol i'r ardal chwarae yn yr awyr agored i sicrhau nad yw plant yn gadael yr ardaloedd hyn heb i neb sylwi. Mae'r gwarchodwr plant hefyd wedi diweddaru'r asesiad risg i adlewyrchu'r newidiadau cadarnhaol hyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do yn groesawgar, yn lân ac yn ddiogel. Gweithredir arferion glanhau da. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau asesiadau risg, gan nodi'r peryglon posibl i blant a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag, nid oes asesiad risg diogelwch tân wedi ei gwblhau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i rieni ar sut i ddelio ag argyfyngau. Mae'r gwarchodwr plant a'r staff yn goruchwylio'r plant yn briodol y rhan fwyaf o'r amser. Er enghraifft, yn ystod ein hymweliad, gadawodd plentyn un o'r ardaloedd chwarae i fynd i'r nesaf heb i neb sylwi. Pan wnaethom ei hysbysu o hyn, cymerodd y gwarchodwr plant gamau ar unwaith.

Mae ystod dda o deganau ac adnoddau ar gyfer yr oedrannau sy'n derbyn gofal ac mae dodrefn o faint priodol ar gael i’r plant. Mae yna rai ardaloedd lle y gall y plant gael cyfnod tawel a gorffwys, ond maent yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y storfa deganau ac adnoddau dan do yn addas ac o fewn cyrraedd i'r plant. Mae ardal benodol wedi’i neilltuo i'r plant ar gyfer storio’u heitemau personol, ac mae hynny’n creu ymdeimlad o berthyn. Mae rhai adnoddau sy'n codi ymwybyddiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas ac am ailgylchu.

Mae llawer o welliannau wedi'u gwneud i'r ardal chwarae awyr agored. Er enghraifft, mae'r ardd wedi'i threfnu'n ddeniadol ag amrywiaeth o offer dringo, siglenni, llithren a digonedd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu i gynorthwyo sgiliau corfforol a chwilfrydedd y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i ddysgu am fyd natur ac mae wedi trefnu ardaloedd o'r ardd ar gyfer plannu a bwydo adar. Er enghraifft, mae teiars sydd wedi'u hailgylchu wedi cael eu defnyddio fel cynhwysyddion plannu ac mae'r plant wedi plannu garlleg, mafon, betys a letys. Mae dewis da o adnoddau naturiol ac offer taflu a dal i ddatblygu sgiliau synhwyraidd a chydsymud y plant.

Mae'r gwarchodwr plant wedi gweithio'n galed i ddatblygu ardal chwarae awyr agored ddeniadol, gan roi mwy o gyfleoedd i blant chwarae yn yr awyr iach ym mhob tywydd.

| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn frwdfrydig ac yn ymroddedig i wneud gwelliannau.  Mae wedi gweithio'n galed i adeiladu tîm cryf o staff ac yn ymdrechu i adeiladu partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni/gofalwyr a'r gymuned leol.  Fodd bynnag, mae angen datblygu rhai meysydd ymhellach.

Mae'r gwarchodwr plant wedi ysgrifennu datganiad o ddiben sy'n rhoi'r wybodaeth i rieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig.  Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu'n briodol a'u hadolygu'n rheolaidd.  Fodd bynnag, nid yw'r polisi diogelu yn cynnwys cyfeiriad at Weithdrefnau Diogelu Cymru.   Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i gyfrifoldeb i hybu'r Gymraeg a siaredir Cymraeg syml.

Mae'r adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal yn llawn gwybodaeth ac yn fyfyriol, gan bwysleisio gwelliannau a wnaed a gweledigaeth y bobl sy'n cynnal y lleoliad ar gyfer y dyfodol.  Mae'r adroddiad yn cynnwys y sylwadau a gasglwyd gan bawb sy'n defnyddio'r lleoliad i sicrhau canlyniadau gwell i'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y gwiriadau datgelu a gwahardd ar ei gyfer ei hun a'r staff yn gyfredol.   Nid yw'r gwarchodwr plant a'r staff yn cofnodi presenoldeb y plant a'u presenoldeb eu hunain yn gywir bob amser.  Mae'r hyfforddiant perthnasol i staff yn gyfredol.  Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i choladu yn ffeiliau'r staff a'r plant.   Ni chynhelir goruchwyliaeth ac arfarniadau ar gyfer y staff.  Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae'r rhain yn feysydd i'w gwella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.   Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl a'u bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad.

Gwnaethom siarad â rhieni, a ddywedodd eu bod yn “hapus iawn” gyda'r lleoliad oherwydd bod eu plentyn wedi ymgartrefu.  Dywedodd rhiant ei fod yn hoffi'r amrywiaeth y mae'r lleoliad yn ei chynnig gan fod ei blentyn yn cael cyfleoedd i chwarae a dysgu yn y goedwig ac yn cael cyfleoedd braf i ymuno â grwpiau plant bach yn y gymuned. Drwy ymgysylltu fel hyn, mae'r plant yn gwella eu sgiliau cymdeithasol.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1: Dilyn canllawiau bwyd a maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparwyr gofal plant o ran hydradu iach.

A2: Dilyn canllawiau diogelwch tân Llywodraeth Cymru ar gyfer safleoedd gwarchod plant er mwyn cwblhau asesiad risg ar gyfer diogelwch tân.

A3: Adolygu damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau presennol yn gyson fel rhan o arferion diogelu ehangach y lleoliad.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Nid yw'r person cofrestredig wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i choladu yn ffeiliau | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | cyflogaeth y staff.  Sicrhau bod yr holl wybodaeth a dogfennaeth ar gael mewn perthynas ag addasrwydd y staff. | |
| 29 | Nid yw'r person cofrestredig wedi sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n briodol i drafod eu lles, eu harferion a'u datblygiad.  Sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarnu priodol. | Newydd |
| 30 | Nid yw'r person cofrestredig wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i chasglu yng nghofnodion unigol y plant, ac nid yw wedi sicrhau bod y cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cydnabod gan yr holl rieni i ddangos eu bod wedi cael eu hysbysu.   Nid yw'r person cofrestredig wedi sicrhau bod presenoldeb yr holl blant yn cael ei gofnodi'n gywir, ac nid yw wedi cofnodi egwyliau’r staff na’r adegau pan fyddant yn gadael y safle i gasglu plant.  Sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu a'i chwblhau i wneud yn siŵr fod anghenion unigol pob plentyn yn cael eu diwallu, sicrhau bod pob rhiant yn cydnabod ei fod wedi cael gwybod am ddamweiniau, cofnodi presenoldeb pob plentyn yn gywir, a chofnodi yn gywir pwy sy'n gofalu am y plant bob amser. | Newydd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyrannu hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 19/07/2022